# Polisi Anghenion Gofal Iechyd

# Ysgol Treganna

**Dyddiad cyhoeddi:** 30.06.2025

**Cyfeiriad llawn a chod post yr ysgol:**

Ysgol Treganna

Heol y Feddygfa

Treganna

Caerdydd

CF11 8DG

**Rhif ffôn yr ysgol:** 02920 590 830

**Cyfeiriad e-bost yr ysgol:** ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk

**Cyfeiriad gwefan ar gyfer y polisi hwn:** https://ysgoltreganna.cymru/cy/

**Enw'r person sy'n gyfrifol am gynnal y polisi hwn:** Mrs Catrin Evans (Pennaeth)

## 1. Egwyddorion Allweddol

Mae staff a llywodraethwyr Ysgol Treganna yn gwbl ymrwymedig i ddilyn polisi addysg gynhwysol sy'n croesawu ac yn cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Nod y polisi hwn yw sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael gafael ar addysg mewn amgylchedd cefnogol, sy'n ystyried unrhyw anghenion gofal iechyd. Mae'n cefnogi rheoli meddyginiaethau ac anghenion gofal iechyd yn yr ysgol, yn ogystal â chynnig cefnogaeth i unigolion sydd ag anghenion gofal iechyd penodol.

Yn Ysgol Caerdydd rydym yn deall na ddylai anghenion gofal iechyd fod yn rhwystr i ddysgu, felly rydym yn gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn deall eu dyletswyddau gofal tuag at blant a phobl ifanc mewn achosion argyfwng a'u bod yn teimlo'n hyderus y gwyddant beth i'w wneud mewn argyfwng.

Nodwyd swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ysgol, y rhieni a'r dysgwyr. Bydd cyfathrebu a chydweithredu effeithiol rhwng y cartref a'r ysgol yn gwneud hyn yn bosib ei gyflawni.

Ysgrifennwyd ein polisi gan ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid lleol yn yr ysgol ac mae'n cydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ''Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd' a gyhoeddwyd ar 30 Mawrth 2017. Rydym hefyd yn cydnabod a gallwn gyfeirio at becyn cymorth Awdurdod Lleol Caerdydd o'r enw 'Diwallu Anghenion Gofal Iechyd Plant a Phobl Ifanc Caerdydd – Pecyn Cymorth ar gyfer Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar ac Ysgolion' (Ebrill 2017) i gael rhagor o wybodaeth, yn enwedig ynglŷn â rheoli cyflyrau meddygol penodol.

1.1 Mae pob plentyn, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, yn unigolyn sy'n datblygu yn ei ffordd unigryw; felly, ein nod yw annog y plant i ganfod eu doniau eu hunain, magu eu hunanhyder, a datblygu teimlad o briodoldeb personol, fel y gall pob plentyn ymdopi â'r amgylchedd, ar lefel sy'n briodol i'r plentyn hwnnw.

Gobeithiwn y bydd pob plentyn yn datblygu'n gytbwys ac y gall ddatblygu agwedd synhwyrol tuag at ddysgu fel y gall fwynhau pob rhan o waith ysgol a bod yn fodlon ar ei gyraeddiadau ei hun.

1.2 Mae problemau gofal iechyd yn effeithio ar bob dysgwr unigol a gall cymorth y lleoliad addysg effeithio ar ei ansawdd bywyd a'i gyfleoedd yn y dyfodol. Felly, dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid sicrhau bod trefniadau yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion sy'n benodol i'r dysgwr ac ystyried sut y mae hyn yn effeithio ar ei addysg, ei gyraeddiadau a'i les. Dylai trefniadau roi sicrwydd i ddysgwyr a rhieni bod darpariaeth yn addas ac yn effeithiol.

## 2. Gofynion cyfreithiol yr ysgol

2.1 Mae Adran 175 Deddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu i wneud trefniadau a fydd yn sicrhau eu bod yn arfer eu swyddogaethau o ran diogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ysgol neu mewn lleoliad dysgu arall. Mae hyn yn cynnwys cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

2.2 Wrth gyflawni'r dyletswyddau dan adran 175 Deddf Addysg 2002, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru dan yr adran hon.

2.3 Mae Adran 21 (5) Deddf Addysg 2002 yn rhoi dyletswydd ar gyrff llywodraethu i hyrwyddo lles wrth ddysgu yn yr ysgol i'r graddau y mae hyn yn berthnasol i'r materion a nodwyd yn adran 25 (2) Deddf Plant 2004, sy'n cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles emosiynol, addysg, hyfforddiant a hamdden, yn ogystal â lles cymdeithasol.

2.4 Mae'r cyngor anstatudol sydd wedi ei gynnwys yn y ddogfen wedi ei roi wrth arfer dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo addysg pobl Cymru ac wrth arfer eu pwerau yn ymwneud â hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru.

2.5 Gan gadw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 dan sylw, dylai lleoliadau addysg fod yn gwbl ymwybodol o'r dull hwn a sicrhau y darperir cymorth i ddysgwyr gan ddefnyddio agwedd gyfannol.

## 3. <u>Swyddogaethau a chyfrifoldebau</u>

### 3.1 Ysgolion

Dylai ysgolion ddatblygu a gweithredu trefniadau yn unol â'r gofynion cyfreithiol

### 3.2 Cyrff Llywodraethu

Dylai cyrff llywodraethu oruchwylio datblygiad a gweithrediad trefniadau a ddylai gynnwys:

- Cydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys y rheiny dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (e.e. y ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ynglŷn â dysgwyr ag anghenion gofal iechyd os ydynt yn anabl)
- Bod â dyletswydd statudol i hybu lles dysgwyr. Dylai ysgolion roi ystyriaeth i sut y gallant ddiwallu'r anghenion hyn, gan gynnwys darparu mynediad i wybodaeth i ddysgwyr a deunyddiau ar gyfer hybu lles i'r ysbryd a'r morâl ynghyd ag iechyd corfforol ac iechyd meddwl (Erthygl 17, CCUHP )
- Ystyried sut y gallant gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r gwydnwch emosiynol y mae eu hangen arnyn nhw i amddiffyn eu hawliau a hawliau pobl eraill
- Sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â threfniadau cefnogi anghenion gofal iechyd dysgwyr yn glir ac wedi eu deall gan bob un ohonynt, gan gynnwys unrhyw gamau dirprwyo cyfrifoldebau neu dasgau i bennaeth, aelod o staff neu weithiwr proffesiynol yn ôl yr angen.
- Cydweithio â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu trefniadau gofal iechyd sydd er budd gorau'r dysgwr.
- Datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Dylai hyn gynnwys polisi ar anghenion gofal iechyd a phan fo'n briodol, CGIUau ar gyfer dysgwyr penodol.
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i ddatblygu, monitro ac adolygu'r trefniadau ar gyfer anghenion gofal iechyd.
- Sicrhau bod y trefniadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, megis iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesu risg, Deddf Diogelu Data 1998, mesurau diogelu a gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau
- Sicrhau bod systemau cadarn ar waith i ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd a digwyddiadau brys, ar gyfer gweithgareddau ar ac oddi ar safle'r ysgol, gan gynnwys mynediad i feddyginiaethau ar gyfer argyfyngau megis anadlwyr neu bennau adrenalin.
- Sicrhau bod staff sydd â chyfrifoldeb am gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael hyfforddiant priodol
- Sicrhau bod yswiriant priodol ar waith, y cydymffurfir ag unrhyw amodau a bod staff yn ymwybodol o ystyr hyn iddyn nhw wrth gefnogi dysgwyr.
- Gweithredu polisi atal heintiau sy'n adlewyrchu'r gweithdrefnau a osodwyd yn y canllawiau cyfredol

**3.3 Pennaeth/athro â chyfrifoldeb:**

Dylai'r pennaeth sicrhau y gweithredir a datblygir trefniadau effeithiol i ddiwallu anghenion gofal iechyd ei ddysgwyr. Dylai'r rhain gynnwys:

- Gweithio gyda'r corff llywodraethu i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol perthnasol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Sicrhau bod pawb yn deall yn llwyr y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr a'u bod yn eu gweithredu a'u cynnal. Mewn lleoliadau addysg mwy, gall fod yn fwy ymarferol dirprwyo rheolaeth ddyddiol dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd i aelod arall o staff. Dylai'r pennaeth oruchwylio'n uniongyrchol y trefniadau hyn yn rhan o'r trefniadau adrodd a goruchwylio yn reolaidd
- Sicrhau bod y cymorth sydd ar waith yn canolbwyntio ar anghenion unigol y dysgwr, sy'n hysbys fel cynlluniau sy'n canolbwyntio ar y person hefyd
- Ehangu ymwybyddiaeth anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad addysg yn unol â hawl y dysgwr i breifatrwydd. Gall hyn gynnwys cymorth, arlwyo a staff dros dro, llywodraethwyr, rhieni a dysgwyr eraill
- Penodi aelod o staff a enwir i fod yn gyfrifol am ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd, ymgysylltu â rhieni, dysgwyr, y gwasanaeth tiwtora gartref, yr awdurdod lleol, y gweithiwr allweddol a phobl eraill sy'n ymwneud â gofal y dysgwr
- Sicrhau bod nifer ddigonol o staff wedi'i hyfforddi ar gael i weithredu'r trefniadau a nodir ym mhob CGIU, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng ac absenoldeb staff
- Bod yn gyfrifol yn gyffredinol am ddatblygu CGIUau
- Sicrhau bod amgylchedd priodol ac urddasol ar gael i ddysgwyr ddelio â'u hanghenion gofal iechyd e.e. ardaloedd toiled preifat ar gyfer rhoi cathetrau
- Gwirio gyda'r awdurdod lleol a yw gweithgareddau penodol ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd wedi eu diogelu'n briodol gan yswiriant a bod nifer mawr y staff yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau i'r gweithgareddau a yswirir.
- Sicrhau bod yr holl ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd wedi eu cysylltu'n briodol â gwasanaeth cyngor iechyd y lleoliad addysg
- Pan fo dysgwr yn cymryd rhan mewn lleoliad profiad gwaith neu debyg, sicrhau bod cymorth gofal iechyd priodol wedi ei gytuno a'i roi ar waith
- Darparu adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd ar waith i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr
- Sicrhau bod yr holl ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau y byddai ganddynt hawl iddyn nhw fel arfer, ac na chânt eu heithrio heb reswm amlwg sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Hysbysu'r awdurdod lleol pan fo'n debygol i ddysgwr fod yn absennol o'r lleoliad addysg am gyfnod sylweddol o amser, e.e. tair wythnos oherwydd ei anghenion gofal iechyd. Yn y pen draw, bydd yr hyn a bennir yn gyfnod o absenoldeb 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn gan ddibynnu ar yr amgylchiadau ac a all y lleoliad ddarparu addysg briodol i'r dysgwr. Gall cyfnodau o absenoldeb byrrach fod yn 'sylweddol', gan ddibynnu ar yr amgylchiadau

- Gan gadw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 dan sylw, dylai lleoliadau addysg fod yn gwbl ymwybodol o'r dull hwn a sicrhau y darperir cymorth i ddysgwyr gan ddefnyddio agwedd gyfannol.

**3.4 Athrawon, Staff Cynorthwyol a bob aelod o Staff arall (e.e. staff arlwyo a staff y dderbynfa);**

Gellir gofyn unrhyw aelod o staff o fewn y lleoliad addysg i ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr gydag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu oruchwylio wrth roi meddyginiaethau. Mae'r rôl hon yn un wirfoddol. Mae'n ofynnol darparu hyfforddiant digonol a phriodol i aelodau staff a chyrraedd y lefel gymhwysedd y mae ei hangen cyn iddyn nhw gymryd y cyfrifoldeb.
Yn ogystal â'r hyfforddiant a ddarperir i staff sydd wedi gwirfoddoli neu sydd wedi cael contract i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod y staff:

- Yn deall yn llwyr bolisi a threfniadau y lleoliad addysg ar gyfer anghenion gofal iechyd
- Yn ymwybodol o'r dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig a, phan fo'n briodol, bod yn gyfarwydd â CGIUau y dysgwyr hyn. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i gyfathrebu â rhieni a beth yw'r rhesymau i gysylltu â nhw, megis pan nad yw dysgwr yn teimlo'n dda, yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu'n gwrthod gwneud rhai gweithgareddau oherwydd ei anghenion gofal iechyd.
- Yn ymwybodol o arwyddion, symptomau ac achosion cyflyrau cyffredin sy'n bygwth bywyd a gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys pwy yw'r unigolion sy'n darparu cymorth cyntaf a gofyn am eu cymorth yn achos argyfwng meddygol
- Yn deall yn llwyr y gweithdrefnau sydd gan y lleoliad addysg ar gyfer achosion argyfwng a bod yn barod i weithredu mewn achos argyfwng
- Yn gofyn i ddysgwyr a'u rhieni am eu barn a gwrando arnynt, a dylid ystyried y farn honno wrth roi cefnogaeth ar waith
- Yn sicrhau bod dysgwyr (neu eu ffrindiau) yn gwybod wrth bwy y dylent ddweud os byddant yn teimlo'n sâl neu os oes angen cefnogaeth neu newid i'w cefnogaeth arnynt
- Yn gwrando ar bryderon y dysgwyr os byddant yn teimlo'n sâl ar unrhyw adeg ac ystyried yr angen am gymorth meddygol (yn arbennig yn achos adroddiadau am anawsterau anadlu)
- Yn sicrhau na chaiff dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eu heithrio o weithgareddau y maent fel arfer yn cymryd rhan ynddynt, heb gael tystiolaeth glir am y rhesymau, gan gynnwys unrhyw wibdeithiau/ymweliadau allanol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dysgwyr yn cael defnyddio eu meddyginiaeth a bod aelod o staff sydd wedi ei hyfforddi'n briodol yn bresennol i gynorthwyo pan fo angen
- Yn ymwybodol o broblemau bwlio a lles emosiynol ynglŷn â dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, a bod yn barod i ymyrryd yn unol â pholisi'r lleoliad addysg
- Yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd a all effeithio ar allu'r dysgwr i ddysgu a darparu cymorth ychwanegol pan fo angen
- Cefnogi dysgwyr sydd wedi bod yn absennol a'u helpu i ddal lan gyda'r gwaith a gollwyd – gall hyn gynnwys gweithio gyda rhieni a gwasanaethau arbenigol
- Yn sicrhau bod rhieni yn gwybod sut y mae anghenion gofal iechyd yn effeithio ar y dysgwr yn y lleoliad addysg. Gall hyn gynnwys adrodd ar unrhyw waethygu, pryderon neu newidiadau i arferion y dysgwr neu'r staff.

**3.5 Rhieni/Gofalwyr/Dysgwyr**

Mae'n hanfodol cynnwys dysgwyr a rhieni mewn modd gweithgar wrth gynllunio cefnogaeth a rheoli anghenion gofal iechyd. Dylai diwallu anghenion yr unigolyn fod wrth wraidd y broses benderfynu a'r penderfyniadau. Mae CCUHP yn datgan y dylai dysgwyr gael mynediad i wybodaeth briodol sy'n hanfodol am eu hiechyd a'u datblygiad a dylid sicrhau cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu hiechyd.

### 3.5.1 Dylai rhieni a dysgwyr:

- Gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phroblemau/newidiadau gofal iechyd sy'n digwydd yn y lleoliad addysg
- Cymryd rhan wrth greu, datblygu ac adolygu CGIU (os oes un). Gall y rhiant a'r dysgwr fod y bobl fwyaf addas i ddarparu gwybodaeth am sut y mae eu hanghenion gofal iechyd yn effeithio arnynt. Dylid eu cynnwys yn llwyr mewn trafodaethau am sut y diwellir anghenion gofal iechyd y dysgwr yn y lleoliad addysg, a chyfrannu at ddatblygiad eu CGIU a'i weithrediad.
- Rhoi digon o wybodaeth gyfredol i'r lleoliad addysg am anghenion gofal iechyd, gan gynnwys unrhyw arweiniad ynglŷn â rhoi meddyginiaethau a/neu driniaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Pan fo'n briodol, dylid annog dysgwyr a'u galluogi i reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hun
- Rhoi gwybod i leoliadau addysg am unrhyw newidiadau megis math o feddyginiaeth, dos a chyfarwyddiadau sut i'w rhoi.
- Sicrhau y gellir cysylltu â'r oedolyn a enwir bob amser a bod yr holl ffurflenni sy'n ofynnol wedi eu cwblhau a'u llofnodi
- Rhoi gwybod i'r lleoliad addysg pan fo haint ar ei blentyn wrth iddo fod yn bresennol

## 3.6 Awdurdod Lleol

Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod darpariaeth addysg ar gael i ddysgwyr, ac:

- Mae'n rhaid iddyn nhw wneud trefniadau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n anabl dan anfantais sylweddol o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae'r ddyletswydd hon yn ddisgwyliedig. Er enghraifft, ni ddylai dysgwyr fod dan anfantais wrth adael yr ysgol gynradd a symud i'r ysgol uwchradd. Yn ymarferol, golyga hyn fod rhaid cynllunio addasiadau a'u gweithredu ymlaen llaw i atal unrhyw anfanteision. Ni ddylai trafodaethau o amgylch cyfrifoldeb dros ddarpariaeth effeithio ar y gwasanaeth a gyflawnir, fel y gallai oedi fod yn niweidiol i addysg a lles y dysgwr
- Mae'n rhaid iddynt roi trefniadau ar waith i hyrwyddo cydweithrediad rhwng gwahanol gyrff neu unigolion, gyda'r bwriad o wella lles plant, ymhlith eraill, o ran eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, eu haddysg, eu hyfforddiant a'u hamser hamdden. Wrth wneud y trefniadau hyn, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu data. Gallai hyn fod drwy weithio o fewn Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), Protocolau Rhannu Data neu Gytundebau Datgelu Data
- Mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau rhesymol ar gyfer gwasanaethau cwnsela ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed a dysgwyr ym Mlwyddyn 6 yr ysgol gynradd. Yn yr ysgolion dylai'r ddarpariaeth hon ategu'r gwahanol ddulliau sydd eisoes ar waith i gefnogi'r anghenion iechyd, emosiynol a chymdeithasol sydd gan ddysgwyr.
- Dylent weithio gyda lleoliadau addysg i sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael addysg addas. Pan na fyddai dysgwr o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod o amser oherwydd ei iechyd, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i wneud trefniadau

i ddarparu addysg addas iddo. Os yw dysgwr yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond yn iau na 18 oed, gall yr awdurdod lleol wneud trefniadau o'r fath

- Dylent ddarparu cymorth, cyngor ac arweiniad, gan gynnwys ynglŷn â sut i ddiwallu anghenion hyfforddiant staff y lleoliad addysg, fel y gall cyrff llywodraethu sicrhau y gellir cyflawni'r cymorth a nodir yn y cynllun gofal iechyd unigol (CGIU) mewn modd effeithiol.

3.7 **Gwasanaeth nyrsys iechyd ysgolion GIG Cymru, gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill, sefydliadau'r trydydd sector a gwasanaethau arbenigol eraill**

3.8 Gellir dod o hyd i gymorth ymarferol a gofal iechyd gan nifer o sefydliadau. Caiff lleoliadau addysg ddefnyddio gwasanaeth cyngor ar iechyd. Gall cwmpas a maint y gefnogaeth y gall y gwasanaeth eu cynnig gynnwys:

- Cynnig cyngor ar ddatblygu CGIUau
- Cynorthwyo i nodi'r hyfforddiant y mae ei angen, felly bydd y lleoliad addysg yn gweithredu CGIUau yn llwyddiannus
- Cefnogi staff i weithredu CGIU dysgwr drwy gyngor ac i gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

Gellir darparu cyngor a chymorth iechyd hefyd gan weithwyr iechyd arbenigol proffesiynol megis meddygon teulu, pediatryddion, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, deietegwyr a nyrsys diabetes arbenigol. Yn ogystal â hyn, gall cyrff gwirfoddol ddarparu cyngor a chymorth ymarferol. Gall ymgysylltu'n rhagweithiol â gwasanaethau arbenigol ddarparu cymorth ymarferol wrth ysgrifennu a gweithredu CGIUau. Gallant hefyd ddarparu hyfforddiant ac adnoddau codi ymwybyddiaeth, gan gynnwys dolenni i fideos.

## 4. <u>Creu amgylchedd hygyrch</u>

Dylai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sicrhau bod eu lleoliadau addysg yn gynhwysol ac yn hygyrch gan wneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

### 4.1 Mynediad ffisegol i adeiladau lleoliadau addysg

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i greu strategaeth hygyrchedd ysgrifenedig ar gyfer yr holl ysgolion y maent yn gyfrifol amdanynt dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Disgwylir i unrhyw strategaeth o'r fath fynd i'r afael â:

*'gwella amgylchedd ffisegol ysgolion at ddiben cynyddu'r graddau y mae dysgwyr anabl yn gallu manteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan ysgolion'.* (Atodlen 10, Deddf Cydraddoldeb 2010)

Yn yr un modd, mae'n rhaid i ysgolion unigol gyflawni gwaith cynllunio hygyrchedd ac mae'n ddyletswydd arnynt i baratoi cynllun hygyrchedd gan ddilyn yr un egwyddorion fel yn y strategaethau a baratowyd gan yr awdurdod lleol.

### 4.2 Addasiadau rhesymol – cymhorthion neu wasanaethau atodol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau dysgu i wneud 'addasiadau rhesymol' ar gyfer dysgwyr sy'n anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf. Ar gyfer y dysgwyr hyn, mae'n rhaid darparu cymhorthion a gwasanaethau atodol (gyda'r nifer briodol o staff wedi eu hyfforddi).

**4.3 Gwibdeithiau dydd ac ymweliadau preswyl**

4.3.1 Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod y lleoliad addysg yn mynd ati i gefnogi pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd i gymryd rhan mewn gwibdeithiau ac ymweliadau. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol sydd arnynt i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer gwibdeithiau ac ymweliadau preswyl gan sicrhau cyfranogiad ar gyfer pob dysgwr.

4.3.2 Dylai staff fod yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwr a all effeithio ar yr hyn y gall gymryd rhan ynddo, a cheisio darparu unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n cynyddu lefel cyfranogiad y dysgwr. Dylai staff ystyried trefniadau rhannu data personol â thrydydd partïon os oes angen ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle (yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac wrth barchu hawliau dysgwyr i breifatrwydd). Gall hyn gynnwys gwybodaeth am anghenion gofal iechyd dysgwyr, beth i wneud mewn argyfwng ac o ran unrhyw gymorth, meddyginiaeth neu gyfarpar ychwanegol y gallai fod ei angen.

4.3.3. Gall fod angen ychwanegu mesurau diogelwch at y rheiny sydd eisoes ar waith yn y lleoliad i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd yn ystod ymweliadau neu weithgareddau y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Gall fod angen gwneud trefniadau ar gyfer cymryd meddyginiaethau a sicrhau bod digon o gyflenwad ar gael ar gyfer ymweliadau preswyl.

4.3.4. Dylai'r holl staff sy'n goruchwylio ymweliadau fod yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr ac unrhyw weithdrefnau ynglŷn ag argyfyngau meddygol. Mae sicrhau bod gan bob aelod o staff daflennu cryno gyda manylion anghenion pob person ifanc ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ddarperir gan rieni, yn un ffordd o gyflawni hyn. Os yw'n briodol, dylai aelod o staff wirfoddoli a chael ei hyfforddi i roi'r feddyginiaeth, os nad yw wedi cael hyfforddiant ynghylch hyn eisoes, a dylai fod yn gyfrifol mewn argyfwng meddygol.

Gellir gofyn i rieni ddarparu:

- Manylion cyflyrau meddygol
- Rhifau cyswllt mewn argyfwng
- Enw, cyfeiriad a rhif ffôn meddyg teulu'r dysgwr
- Gwybodaeth o ran a yw'r dysgwyr wedi treulio noson oddi cartref o'r blaen a'u gallu i ymdopi'n effeithiol
- Manylion ysgrifenedig am unrhyw feddyginiaeth y mae ei hangen (gan gynnwys cyfarwyddiadau ar ddosau/amseroedd)
- Caniatâd rhieni os oes angen i berson ifanc roi ei feddyginiaeth ei hun neu gytundeb ar gyfer aelod o staff i wirfoddoli i'w rhoi
- Gwybodaeth am unrhyw alergeddau/ffobiâu
- Gwybodaeth am unrhyw ofynion deiet arbennig
- Gwybodaeth ar unrhyw anawsterau o ran mynd i'r toiled, cyfarpar arbennig neu gymhorthion i fywyd pob dydd
- Anghenion cludiant penodol ar gyfer dysgwyr a phobl ifanc y mae angen cymorth gyda symudedd arnynt
- Tystysgrif 'iach i deithio' wedi ei hysgrifennu gan y meddyg teulu/ymgynghorydd os yw'r plentyn ag anghenion meddygol sylweddol. (Heb hyn, gall yr yswiriant fod yn annilys.)

**Cyfathrebu cymdeithasol**

4.4.1. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau yr ystyrir i ba raddau mae dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu cynnwys mewn gweithgareddau cymdeithasol ffurfiol ac anffurfiol, megis yn ystod egwyliau, clwb brecwast, cynyrchiadau, clybiau ar ôl ysgol ac ymweliadau preswyl.

4.4.2. Dylai'r lleoliad addysg sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o rwystrau cymdeithasol sydd o flaen dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a sut gall hyn arwain at fwlio ac allgáu cymdeithasol. Mae angen roi dull rhagweithiol ar waith i ddileu unrhyw rwystrau.

**4.5 Ymarfer corff a gweithgareddau corfforol**

4.5.1. Dylai'r lleoliad addysg ddeall pwysigrwydd cynnwys pob dysgwr mewn gweithgareddau corfforol a dylai staff wneud addasiadau priodol i chwaraeon a gweithgareddau eraill i'w gwneud yn hygyrch i'r holl ddysgwyr gan gynnwys y clybiau ar ôl ysgol a chwaraeon tîm.

4.5.2. Dylai staff fod yn gwbl ymwybodol o anghenion gofal iechyd y dysgwyr a'r hyn a allai achosi pyliau. Dylent wybod sut i ymateb yn briodol ac yn brydlon os byddant yn gweld bod dysgwr yn teimlo'n wael. Dylent ofyn am arweiniad bob tro wrth ystyried sut gall cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ac eraill effeithio ar ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd.

4.5.3. Dylid osgoi 'darpariaethau arbennig' ar wahân ar gyfer gweithgareddau penodol, gyda phwyslais ar weithgareddau hygyrch i bawb yn hytrach. Pan na fyddai hyn yn bosib, dylid gofyn am gyngor gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd neu addysg gorfforol a chan y dysgwr.

4.5.4. Dylai'r staff hefyd ddeall y gallai fod yn amhriodol i rai dysgwyr ag anghenion gofal iechyd fynd â'u meddyginiaeth neu fwyd gyda nhw yn ystod gweithgareddau corfforol; dylid annog y fath ddysgwyr i gymryd y feddyginiaeth neu'r bwyd pan fo angen.

**4.6 Rheoli Bwyd**

4.6.1. Pan fydd y lleoliad addysg yn darparu bwyd, bydd rhaid ystyried anghenion deietegol y dysgwyr, e.e. y rheiny sydd â diabetes, clefyd seliag, alergeddau ac anoddefiadau

4.6.2. Pan fo angen, dylai'r lleoliad addysg ddosbarthu bwydlenni i rieni a dysgwyr, gyda rhestr lawn o gynhwysion a gwybodaeth am faetholion. Mae'n rhaid nodi'n glir y glwten a'r sylweddau eraill a allai fod yn alergenau neu achosi anoddefiad. Bydd yr wybodaeth a roddir yn helpu i hwyluso rhieni a thimau arlwyo i weithio ar y cyd. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo angen cyfrif carbohydradau. Dylid ystyried y byrbrydau fydd ar gael. Dylai dewisiadau heb siwgr a glwten fod ar gael bob tro. Gan y gall rhai cyflyrau ofyn am gymryd llawer o galorïau, dylai bwydydd a diodydd sydd â llawer o glwcos fod ar gael.

4.6.3. Mae'n rhaid i'r bwyd a ddarperir yn ystod gwibdeithiau gyfateb i anghenion deietegol a thriniaeth y dysgwyr sydd ar y wibdaith. Dylai'r bwyd a roddir fel byrbrydau mewn lleoliadau ystafell ddosbarth hefyd roi ystyriaeth i anghenion y dysgwyr. Er y cydnabyddir bod ysgolion iach a pholisi 'dim melysion' yn bwysig, gall fod angen i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd gael eu heithrio o'r polisïau hyn. Ni ddylid troi dysgwyr y mae angen bwyta neu yfed arnynt fel rhan o'u cyflwr allan o'r ystafell ddosbarth na chael eu hynysu.

**4.7 Asesiadau risg**

4.7.1. Dylai staff wybod yn iawn pryd mae angen asesiad risg a bod yn ymwybodol o'r systemau asesu risg sydd ar waith. Dylent ddechrau gyda'r cysyniad o gynhwysiant a dylent gynnwys proses o geisio addasu neu drefnu gweithgareddau amgen yn hytrach na darpariaeth ar wahân.

4.7.2. Yn ogystal â hyn, mae dyletswyddau arnynt dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i baratoi a gweithredu strategaethau a chynlluniau hygyrchedd. Bydd y strategaethau a'r cynlluniau hyn yn ymdrin â materion sy'n berthnasol i gynyddu cyfranogiad dysgwyr anabl.

## 5. **Rhannu Gwybodaeth**

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau y cefnogir trefniadau ar gyfer anghenion gofal iechyd, polisïau ehangach lleoliadau addysg a CGIUau drwy gyfathrebu'n glir â staff, rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill i sicrhau gweithrediad llawn. Mae'n hanfodol cadw'r holl wybodaeth yn gyfredol trwy'r amser. Mae'n rhaid cytuno ar yr holl ffyrdd o rannu gwybodaeth, megis hysbysfyrddau staff a mewnrwyd yr ysgol, ar y cyd â dysgwyr a rhieni cyn eu defnyddio, i ddiogelu cyfrinachedd.

**Athrawon, athrawon cyflenwi a staff cynorthwyol (gall hyn gynnwys staff arlwyo a chontractwyr perthnasol)**

Dylai staff gael mynediad i wybodaeth berthnasol, yn enwedig os yw'n bosib i sefyllfa argyfwng ddigwydd. Bydd sut y gwneir hyn yn dibynnu ar fath a maint y lleoliad a gallai gynnwys:

- Pan fo'n addas ac wrth ddilyn cydsyniad priodol, hysbysfwrdd yn yr ystafell staff a ddefnyddir i arddangos gwybodaeth am anghenion gofal iechyd â risg uchel, yr unigolion â chymhwyster cymorth cyntaf a'u tystysgrifau, gweithdrefnau yn achos argyfwng ac ati. Dylid nodi nad yw pob aelod o staff yn defnyddio'r ystafell staff, y gall maint y lleoliadau addysg wneud y ffordd hon o rannu gwybodaeth yn anymarferol, a bod yn rhaid ystyried preifatrwydd y dysgwyr bob amser.
- Defnyddio mewnrwyd ddiogel y lleoliad addysg a chyfarfodydd staff i helpu i sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr y maent mewn cysylltiad â nhw, neu y gallant fod mewn cysylltiad â nhw.

**5.2. Rhieni a dysgwyr**

5.2.1. Dylai rhieni a dysgwyr fod yn bartneriaid gweithgar ac, er mwyn sicrhau hyn, dylai'r lleoliad addysg wneud rhieni'n gwbl ymwybodol o'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Dylai rhieni a dysgwyr hefyd gael gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r lleoliad addysg:

- Sicrhau ei bod yn hawdd cael hyd i bolisïau gofal iechyd, a hynny ar-lein ac ar ffurf copi caled
- Rhoi copi o'r polisi rhannu gwybodaeth i'r dysgwr Dylai hyn nodi'r mathau o gyrff ac unigolion y gall gwybodaeth feddygol y dysgwr gael ei rhannu â nhw
- Gofyn i rieni lofnodi ffurflen gydsynio, sy'n manylu'n glir ar gyrff, unigolion a dulliau o rannu gwybodaeth. Gall rhannu gwybodaeth feddygol fod yn fater hynod sensitif a dylai'r dysgwr gael ei gynnwys mewn unrhyw benderfyniad. Dylai lleoliadau addysg gadw rhestr o'r wybodaeth sydd wedi ei rhannu, â phwy rhannwyd yr wybodaeth a pham, i'r dysgwr/rhiant weld hyn ar gais
- Ystyried cynnwys dolen we i'r polisïau anghenion gofal iechyd mewn gohebiaeth berthnasol a anfonir at rieni ac yn CGIU y dysgwr
- Cynnwys cynghorau ysgol, 'ysgolion iach' a grwpiau dysgwyr eraill wrth ddatblygu trefniadau anghenion gofal iechyd y lleoliad, pan fo'n briodol
- Ystyried sut gall grwpiau cyfeillion a chyfoedion helpu dysgwyr, e.e., gallent ddysgu beth sy'n achosi problemau i ddysgwr a beth yw'r arwyddion, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac at bwy i

droi am gymorth. Dylai'r lleoliad addysg drafod â dysgwyr a rhieni'n gyntaf ac wedyn penderfynu a ddylid rhannu'r wybodaeth.

**6. Gweithdrefnau a chadw cofnodion ar gyfer rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr**

6.1. Dylai'r lleoliad addysg greu gweithdrefnau sydd i nodi rolau/cyfrifoldebau yr holl bartïon sy'n ymwneud â nodi, rheoli a gweinyddu anghenion gofal iechyd. Dylid casglu'r wybodaeth ganlynol a'i chynnal, pan fo'n briodol.

- ✓ Manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau brys
- ✓ Cydsyniad rhieni i'r lleoliad addysg roi meddyginiaeth
- ✓ Cydsyniad Pennaeth y lleoliad addysg ar gyfer rhoi meddyginiaethau
- ✓ Cofnod o'r meddyginiaethau a gedwir ac a roddir i ddysgwr unigol
- ✓ Cofnod o feddyginiaethau a roddir i'r holl ddysgwyr yn ôl dyddiad
- ✓ Cais am ddysgwr i gymryd ei feddyginiaeth ei hun
- ✓ Cofnod o hyfforddiant staff – rhoi meddyginiaethau
- ✓ Ffurflen digwyddiadau sy'n ymwneud â meddyginiaeth

6.2. Dylid llenwi cofnodion newydd pan fo newid yn y feddyginiaeth neu'r dos. Dylai'r lleoliad dysgu sicrhau y nodir ar yr hen ffurflenni'n glir nad ydynt yn berthnasol mwyach a'u cadw yn unol â'i bolisi cadw gwybodaeth. Mae'r ffurflenni a'r templedi hyn ar gael yn Atodiad 1. Ceir fersiynau electronig ar wefan Llywodraeth Cymru.

6.2.1. Mae'n rhaid cofnodi pob meddyginiaeth a roddir yn y ffurflenni priodol. Os yw dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, dylai staff gofnodi hyn a dilyn y gweithdrefnau a nodwyd gan roi gwybod i rieni nad yw'r dysgwr yn cydweithio cyn gynted â phosibl.

6.2.2. Mae'r enghreifftiau gorau o gadw cofnodion yn cynnwys systemau lle mae cofnodion o ran anghenion gofal iechyd dysgwyr wedi eu cadw ar gyfrifiadur i ganiatáu mynediad cyflym a hawdd gan y staff priodol. Gall systemau data hefyd ganiatáu i staff gael mynediad hawdd i'r wybodaeth y mae ei hangen ar gyfer achosion pan na fydd staff yn yr ystafell ddosbarth yn gyfarwydd ag anghenion gofal iechyd y dysgwyr. Mae'n ofynnol i systemau o'r fath weithredu yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

**7. Storio, mynediad a rhoi meddyginiaethau neu ddyfeisiau**

Gall fod angen meddyginiaethau ar ddysgwyr mewn lleoliad am lawer o resymau ac ni ddylid eu rhoi oni cheir caniatâd y rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol ymlaen llaw. Dim ond os yw'r meddyg teulu wedi rhagnodi meddyginiaethau y dylid eu rhoi. Ni ddylai unrhyw blentyn dan 16 oed gael meddyginiaethau sy'n cynnwys asbirin.

Bydd angen creu Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU) ar gyfer dysgwyr sydd angen meddyginiaeth.

**Trefniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth mewn lleoliad**

- Dylid cwblhau ffurflen gais gan riant bob tro y bydd angen i staff y lleoliad roi meddyginiaeth (Ffurflen 3A a 3B yn Atodiad 1), neu i blentyn neu berson ifanc gymryd ei feddyginiaeth ei hun. Mae'n rhaid i'r Pennaeth gytuno ar y trefniadau hyn, a'u cofnodi a'u dyddio. Mae'n rhaid cadw copi ar ffeil.
- Pan fo meddyginiaeth yn driniaeth hirdymor, mae'n rhaid atodi llythyr gan feddyg teulu neu ymgynghorydd y dysgwr sy'n esbonio'r trefniadau hyn at y cais.

- Dylid derbyn newidiadau i'r feddyginiaeth yn ysgrifenedig yn unig gan weithiwr iechyd proffesiynol a dylid cadw cofnod o hyn eto. **Ni ddylid derbyn negeseuon ar lafar.**

**Cael meddyginiaeth mewn lleoliad**

Ni ddylid derbyn meddyginiaeth mewn lleoliad oni bai ei bod wedi'i labelu'n glir gydag:

- Enw'r dysgwr
- Enw a chryfder y feddyginiaeth
- Dos, amlder ac amseroedd pryd y dylid rhoi'r feddyginiaeth
- Dyddiad dod i ben
- Cyngor ar sut i'w storio

**7.3 Storio meddyginiaeth**

- Dylid storio meddyginiaeth mewn cwpwrdd wedi'i gloi lle na all plant a phobl ifanc eraill gael mynediad iddo. Dylid cadw'r allwedd mewn lle hygyrch sy'n hysbys i'r aelodau staff penodedig. Mae angen cadw rhai meddyginiaethau yn yr oergell. Os yw'n ofynnol cadw'r feddyginiaeth mewn oergell, dylai fod mewn cynhwysydd wedi'i selio a'i labelu'n glir. Mae'n rhaid i bob meddyginiaeth gael ei labelu'n glir. Gellir cael rhagor o gyngor gan ganllawiau **COSHH**, **Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd, 2002**[1].
- Yn achos dysgwyr hŷn, gall fod yn briodol iddynt gario meddyginiaeth ar gyfer argyfyngau gyda nhw – dylai lleoliadau wneud penderfyniadau o'r fath ar sail amgylchiadau unigol wrth ymgysylltu â'r teulu a'r tîm iechyd. Dylai'r CGIU nodi'r penderfyniad a gytunwyd.
- Yn y rhan fwyaf o'r achosion dylid caniatáu i ddysgwyr gario anadlwyr asthma gyda nhw i sicrhau ei bod yn hawdd eu defnyddio. Eto, dylid nodi hyn yn CGIU y dysgwyr.
- Gall fferyllwyr lleol roi cyngor ar sut i storio meddyginiaethau.

**7.4 Rhoi meddyginiaethau**

- Mae'n rhaid i unrhyw aelod o staff sy'n fodlon rhoi meddyginiaethau gael hyfforddiant ac arweiniad priodol, a bod yn ymwybodol o unrhyw effeithiau andwyol y feddyginiaeth. Gellir dod o hyd i hyn yn y daflen wybodaeth.
- Ni ddylai rhieni anfon meddyginiaeth i leoliad mewn dosau wedi eu paratoi ymlaen llaw/mewn chwistrell (oni bai eu bod wedi eu paratoi gan fferyllydd) na mewn diodydd. Mae'n rhaid ei hanfon yn y pecynnu gwreiddiol gyda label wreiddiol y fferyllfa. Mae'n rhaid darparu chwistrell i helpu i fesur y dos cywir.
- Mae'n rhaid rhoi meddyginiaethau yn unol â'r presgripsiwn a roddwyd gan y meddyg teulu yn unig. Dylai rhieni sicrhau bod copi ohono ar gael i'r lleoliad. Mae angen hysbysiad ysgrifenedig gan y meddyg teulu ar leoliadau os oes newid o ran dos neu feddyginiaeth.
- Ni ddylid rhoi meddyginiaethau ar ôl y dyddiad dod i ben. Bydd angen i rieni newid y meddyginiaethau ar unwaith ac ar rieni mae'r cyfrifoldeb i waredu unrhyw feddyginiaethau diangen.
- Yr arfer gorau yw cael dau aelod o staff i wirio'r feddyginiaeth pan fydd angen ei rhoi. Dylid gwirio'r manylion canlynol:

    - **Y dysgwyr cywir** (enw a dyddiad geni)

[1] Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) (2002), wedi'u diwygio yn ôl yr angen www.hse.gov.uk

  - **Meddyginiaeth gywir** (dylai staff wybod beth yw diben y feddyginiaeth)
  - **Dos cywir** (wedi ei fesur gyda chwistrell)
  - **Ffordd gywir o'i rhoi (**drwy'r geg/gastrostomi/tiwb nasogastrig)
  - **Yr amser cywir**

- Gall y dysgwr gymryd y feddyginiaeth ei hun mewn rhai achosion, e.e. anadlwyr asthma. Dylid ei gwneud yn glir yn y ffurflenni perthnasol i feddyginiaethau yn y lleoliad p'un a oes angen goruchwylio'r dysgwr neu beidio. Mae'n arfer da cofnodi pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cymryd meddyginiaeth hyd yn oed os yw'n ei chymryd hi ei hun.
- Dylid rhoi mesurau priodol ar waith neu wneud trefniadau amgen os nad yw'r aelodau staff penodedig ar gael neu os ydynt yn absennol.
- Dylai ffurflen wedi'i chwblhau (Ffurflen 5 a 6 yn Atodiad 1) fod ar gael i ddangos enw a dyddiad geni'r dysgwr, y dyddiad, amser, enw'r feddyginiaeth a'r dos a dylai dau aelod o staff lofnodi hyn. Mae'n hollbwysig cadw cofnod cywir.
- Ni ddylai staff roi unrhyw feddyginiaeth os oes angen barn feddygol i benderfynu'r angen, oni bai mewn argyfwng, ond dylai hyn ddigwydd yn unol â'r CGIU a gytunwyd.

**7.5 Hylendid a Rheoli Heintiau**

- Dylai pob aelod o staff fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau arferol ar gyfer osgoi heintiau a dilyn gweithdrefnau hylendid sylfaenol. Dylai staff allu ddefnyddio menig diogelwch untro a bod yn ofalus wrth lanhau gwaed neu hylifau corfforol eraill sydd wedi gollwng ac wrth waredu rhwymynnau neu gyfarpar.

**7.6 Gwaredu meddyginiaethau**

- Dylid dychwelyd meddyginiaethau i'r rhiant eu gwaredu bob tro. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid dychwelyd unrhyw feddyginiaeth i fferyllfa leol
- Ni ddylid gwaredu meddyginiaethau mewn sinciau na thoiledau
- Mae rhai meddyginiaethau (e.e. ar gyfer diabetes) wedi eu paratoi ymlaen llaw ac maent yn cynnwys nodwydd. Mae'n hanfodol sicrhau blychau ar gyfer eitemau main i waredu nodwyddau a gellir cael hyn drwy gysylltu â'ch fferyllfa leol neu wrth siarad â nyrs y lleoliad addysg.

**7.7 Meddyginiaethau mewn Argyfwng**

- Mae'n rhaid i feddyginiaethau ar gyfer argyfyngau (h.y. epi pen, midazolam ar gyfer y foch) fod â Chynllun Gofal Iechyd Unigol, sy'n manylu ar sut i'w rhoi a beth i'w wneud mewn argyfwng
- Dylid lleoli'r meddyginiaethau ar gyfer argyfyngau mewn lle hygyrch sy'n hysbys i bob aelod o'r staff ond lle na all y plant neu'r bobl ifanc eraill eu cyrraedd.
- Mae'n rhaid peidio â defnyddio meddyginiaethau argyfwng ar gyfer dysgwyr eraill sy'n dangos yr un symptomau. Os oes unrhyw bryderon, mae'n rhaid galw ambiwlans. Ni ellir rhoi meddyginiaeth i unrhyw un ond y dysgwr y bwriedir iddo/iddi
- Dylai staff gael hyfforddiant ar sut i roi meddyginiaethau mewn argyfwng. Os bydd dysgwr yn anghofio ei feddyginiaethau ar gyfer argyfyngau, mae'n rhaid i'r rhiant ddod â nhw ar unwaith neu mae'n rhaid i'r dysgwr fynd adref.
- Mae'n rhaid i rieni a'r meddyg teulu gael gwybod os rhoddwyd meddyginiaethau ar gyfer argyfyngau a dylid cadw cofnodion yn y lleoliad.

## 8. Gweithdrefnau mewn Argyfwng

8.1. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod polisi ar waith ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd argyfwng. Dylai staff wybod pwy sy'n gyfrifol am y polisi, pwy yw'r unigolion â chymwysterau cymorth cyntaf a sut i ddelio gydag anghenion gofal iechyd cyffredin. Mewn sefyllfaoedd pan fydd angen cymorth, mae'n rhaid galw 999 ar unwaith. Dylai staff wybod ble mae cofnodion gofal iechyd y dysgwyr a manylion cyswllt ar gyfer argyfyngau.

8.2. Pan fo CGIU gan ddysgwr, dylai hwn nodi'n glir yr hyn a ystyrir yn argyfwng ynghyd â chyfarwyddiadau beth i'w wneud. Dylai staff fod yn ymwybodol o symptomau a thriniaethau mewn achosion argyfwng.

8.3. Dylai dysgwyr eraill yn y lleoliad addysg hefyd fod yn ymwybodol o'r hyn sydd i'w wneud yn gyffredinol mewn achosion argyfwng, sef rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith. Os oes angen mynd â dysgwr i'r ysbyty, dylai aelod o staff aros gyda'r dysgwr nes i'r rhiant gyrraedd. Mae hyn yn cynnwys ei hebrwng yn yr ambiwlans i'r ysbyty. Dylai'r aelod o staff gael manylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth hysbys.

8.4. Ni ddylid mynd â dysgwyr i'r ysbyty yng nghar staff oni bai bod rhesymau eithriadol. Os bydd angen gwneud hyn, mae'n rhaid i oedolion arall hebrwng y dysgwr a'r aelod o staff. Mae'n rhaid bod gan staff yswiriant cerbyd atebolrwydd cyhoeddus.

Gweler Polisi Sefyllfaoedd Argyfwng

## 9. Hyfforddiant

9.1. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli neu sydd wedi eu contractio i gefnogi'r rheiny sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael hyfforddiant priodol. Dylai cyrff llywodraethu hefyd sicrhau bod eu polisïau yn gosod yn glir sut y pennir nifer digonol o'r aelodau staff hyn a'u cefnogi.

9.2. Wrth gynorthwyo dysgwyr gyda'u hanghenion gofal iechyd, dylid cydnabod nad oes angen hyfforddiant arbenigol am lawer o'r ymyriadau, ac mai gwaith y staff fydd hwyluso'r dysgwr i ddiwallu ei anghenion gofal iechyd ei hun.

9.3. Gall CGIUau nodi anghenion gofal iechyd cymhleth sy'n gofyn am staff sydd â hyfforddiant a gwybodaeth benodol. Gall yr hyfforddiant hwn hefyd fod ar gyfer defnyddio cymhorthion megis cymhorthion clywed (dylid dangos i staff sut i newid batris) a thechnolegau addasu amrywiol. Os gweithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi rhagnodi'r rhain, gellir gofyn iddynt ddarparu hyfforddiant addas i'r lleoliad addysg ac i ddysgwyr a'u teuluoedd hefyd.

9.4. Dylai'r hyfforddiant a ddarperir fod yn ddigonol i sicrhau bod y staff yn gymwys, yn hyderus yn eu gallu i gefnogi dysgwyr ac yn bodloni gofynion y CGIU. Yn bwysig iawn, dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys cyfranogiad gan y dysgwr a'r rhieni, sydd yn aml yn chwarae rôl sylweddol wrth ddarparu gwybodaeth am sut i ddiwallu anghenion. Fodd bynnag, ni ddylid dibynnu ar rieni yn unig i gael hyfforddiant am anghenion gofal iechyd eu plentyn.

9.5. Os oes gan ddysgwr anghenion cymhleth, gall fod angen i wasanaethau gofal iechyd a'r awdurdod lleol gynghori a nodi cyfleoedd am hyfforddiant a chymorth ychwanegol.

9.6. Gall pob aelod o staff, ni waeth a yw wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr â'u hanghenion gofal iechyd neu beidio, ddod mewn cyswllt â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Y cyngor felly yw sicrhau bod pob aelod o staff yn meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o gyflyrau cyffredin i sicrhau y gall adnabod symptomau a deall ym mha le i chwilio am gymorth priodol. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â chyflyrau cyffredin, gweler Pecyn Cymorth Gofal Iechyd Awdurdod Lleol Caerdydd.

9.7. Dylai polisïau gynnwys gweithdrefn ar gyfer sut i gynyddu ymwybyddiaeth o gyflyrau cyffredin, polisi anghenion gofal iechyd a rolau'r staff wrth gwblhau trefniadau. Yn benodol, dylai staff newydd a dros dro

fod yn ymwybodol o ba fesurau ataliol ac argyfwng sydd ar waith fel y gall staff adnabod yr angen i ymyrryd ac ymateb yn gyflym.

9.8. Os nad yw'r staff sydd wedi ei hyfforddi ac sydd fel arfer yn gyfrifol am roi meddyginiaeth ar gael, dylid nodi yn y CGIU y trefniadau amgen. Mae angen nodi hyn wrth gynnal asesiad o risg a chynllunio gweithgareddau oddi ar safle'r lleoliad.

**10. Cymwysterau ac asesiadau**

10.1. Mae'n hanfodol sefydlu cysylltiadau effeithlon ac effeithiol pan fydd dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn mynd i gael asesiadau, gan gynnwys y rheiny sy'n sefyll arholiadau yn yr ysbyty neu gartref. Gall yr elfen gwaith cwrs helpu dysgwyr i gadw lan â'u cyfoedion. Gall yr athrawon yn y cartref ac yn yr ysbyty drefnu i bwysleisio'r elfen hon i sicrhau bod y dysgwyr yn colli cyn lleied â phosibl pan na allant fod yn bresennol. Mae'n hollbwysig cadw cysylltiad rhwng y lleoliad addysg a'r athro ysbyty neu'r tiwtor gartref, yn enwedig pan fo'r dysgwr yn symud o leoliad addysg neu gartref i'r ysbyty un rheolaidd.

10.2. Gall cyrff dyfarnu wneud trefniadau arbennig i ddysgwyr sydd ag anableddau parhaol neu hirdymor ac anawsterau dysgu neu anableddau a salwch dros dro, sy'n sefyll arholiadau cyhoeddus. Dylai ysgolion gyflwyno ceisiadau am drefniadau arbennig i'r cyrff dyfarnu cyn gynted â phosib. Ceir canllawiau llawn ynglŷn â'r amrywiaeth o drefniadau arbennig sydd ar gael a'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yng nghylchlythyrau Cyd-Gyngor Cymwysterau – Addasiadau ar gyfer ymgeiswyr ag anableddau ac anableddau dysgu (2016).

**11. Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)**

11.1.Dylid nodi anghenion addysg dysgwyr na allant fynd i'w lleoliad addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, a dylent gael cymorth addysgol yn gyflym er mwyn iddynt barhau i dderbyn addysg briodol. Dylai'r ddarpariaeth fod yn un ymatebol, gan adlewyrchu anghenion yr hyn a all fod yn gyflwr iechyd newidiol.

11.2. Pan ddisgwylir absenoldebau neu os yw'n hysbys ymlaen llaw, dylid cadw cysylltiad agos rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol i allu darparu'r gwasanaeth AHY o gychwyn cyntaf yr absenoldeb.

11.3. Mae'n hanfodol i'r lleoliad addysg a staff iechyd a gweinyddol yr ysbyty gydweithio. Y nod ddylai fod sicrhau'r budd gorau posibl ar gyfer addysg ac iechyd y dysgwr, a ddylai gynnwys creu awyrgylch i annog dysgu effeithiol. Gall rhieni fod yn gysylltiad gwerthfawr hefyd.

11.4. Gall dysgwyr ag anghenion gofal iechyd cymhleth gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda chynllun gofal iechyd ysgrifenedig. Pan fydd hyn yn digwydd, dylid cynnwys y cynllun gofal ysgrifenedig yn rhan o unrhyw CGIU.

**12. Cludiant i'r Ysgol**

12.1. Mae dyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol, y pennaeth a'r corff llywodraethu ynglŷn â dysgwyr sy'n teithio i'r lleoliad lle maent yn cael eu haddysgu neu eu hyfforddi. Er enghraifft, gan ddibynnu ar amgylchiadau, gall fod angen i'r awdurdod lleol drefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwr, neu fel arall darparu hebryngwyr wedi eu hyfforddi'n briodol ar gyfer teithiau o'r fath i hwyluso presenoldeb y dysgwr.

**13. Adolygu polisïau, trefniadau a gweithdrefnau**

13.1. Dylai cyrff llywodraethu sicrhau yr adolygir yr holl bolisïau, trefniadau a gweithdrefnau yn rheolaidd gan y lleoliad addysg. Gall fod angen adolygu'r CGIUau yn aml gan ddibynnu ar y math o angen gofal iechyd – dylai hyn gynnwys yr holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys pan fo'n briodol y dysgwr , y rhieni, y gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd a chyrff eraill perthnasol.

**14. Trefniadau Yswirio**

14.1. Dylai cyrff llywodraethu lleoliadau addysg a gedwir sicrhau bod lefel briodol o yswiriant ar waith i yswirio gweithgareddau'r lleoliad wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai lefel yr yswiriant adlewyrchu lefel y risg yn briodol. Gall fod angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau neu weithdrefnau gofal iechyd ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol. Ar gyfer canllawiau manylach, cyfeiriwch at Becyn Cymorth Awdurdod Lleol Caerdydd – *Cefnogi dysgu ag anghenion gofal iechyd (Ebrill 2017).*

**15. Gweithdrefn Gwyno**

Gweler polisi gweithdrefn cwyno

**16. 16. Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol (CGIU)**

Dylai cyrff llywodraethu sicrhau bod polisi y lleoliad addysg yn darparu ar gyfer ei swyddogaeth cynlluniau gofal iechyd unigol, yn ogystal â phwy sy'n gyfrifol am ddatblygu'r rhain wrth gefnogi dysgwyr â chyflyrau meddygol mewn lleoliad addysgol.

16.2. Gall CGIU (Gweler Ffurflen 2, yn Atodlen 1) fod o gymorth i leoliad nodi'r mesurau diogelwch y mae eu hangen i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a sicrhau na chânt hwy nac eraill eu rhoi mewn perygl. Bydd y cynlluniau yn aml yn elfen hanfodol, fel mewn achosion pan fydd amodau yn amrywio neu pan fo perygl uchel y bydd angen ymyriad brys. Maent yn debygol o fod o gymorth yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig pan fo'r cyflwr yn un hirdymor a chymhleth. Fodd bynnag, ni fydd angen cynllun ar bob plentyn.

Gall Cynllun Gofal Iechyd Unigol roi eglurhad i leoliadau, rhieni a dysgwyr o ran pa gymorth sydd ar gael gan y lleoliad ac ar ei gyfer. Dylid sicrhau rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu am newidiadau annisgwyl yn anghenion y dysgwr.

**Nodi**

- Nodir dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd gan y ffurflen gofrestru neu drwy lwybr arall
- Rhiant neu ddysgwyr yn rhoi gwybod i'r lleoliad addysg am yr anghenion gofal iechyd
- Cynhelir trafodaethau pontio mewn da bryd e.e. wyth wythnos cyn naill ai diwedd y tymor neu ddyddiad symud i leoliad addysg newydd

**Casglu**

- Os oes angen am CGIU o bosib, dylai'r lleoliad addysg ei drafod â'r rhiant a'r dysgwr
- Dylid trefnu hyfforddiant pan fo angen

**Pennu**

- Bydd y lleoliad addysg yn trefnu cyfarfod â staff, rhieni, dysgwr a gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol perthnasol
- Ysgrifennu a chytuno ar y cyd ar CGIU ar gyfer y dysgwr

### 16.2 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau wrth greu a rheoli CGIUau

16.2.1. Nid oes angen i CGIUau fod yn gymhleth ond dylent egluro sut y gellir diwallu anghenion y dysgwr. Dylai CGIU fod yn hygyrch i bawb sydd angen cyfeirio ato wrth gynnal y lefelau preifatrwydd gofynnol. Dylai pob cynllun gynnwys gwybodaeth a chamau gweithredu allweddol y mae eu hangen i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol.

16.2.2. Mae'n rhaid i weithiwr iechyd proffesiynol arwain wrth ysgrifennu Cynllun Gofal Iechyd; gall hwn fod yn nyrs ysgol, nyrs arbenigol, ymwelydd iechyd anghenion arbennig neu ymgynghorydd. Mae eu gwybodaeth am y cyflwr, y feddyginiaeth, y gweithdrefnau mewn argyfwng ac am y dysgwr yn hollbwysig. Dylid cwblhau hyn drwy gynnwys:

- ✓ Y dysgwr (pan fo modd)
- ✓ Rhiant/gofalwr
- ✓ Cyfraniad neu wybodaeth gan leoliad addysg blaenorol
- ✓ Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
- ✓ Proffesiynau Gofal Cymdeithasol
- ✓ Pennaeth a/neu unigolyn cyfrifol dirprwyedig ar gyfer anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad
- ✓ Athro a staff cynorthwyol, gan gynnwys staff arlwyo yn ôl yr angen
- ✓ Unrhyw unigolyn â swyddogaethau perthnasol fel cydlynydd cymorth cyntaf, swyddog lles a Chydlynydd ADY (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol)
- ✓ Staff y lleoliad sydd wedi cytuno i roi meddyginiaeth neu i gael ei hyfforddi mewn gweithdrefnau argyfwng

**Gall Cynllun Gofal Iechyd Unigol gynnwys:**

- ✓ Y cyflwr meddygol: yr hyn sy'n ei achosi, symptomau a thriniaeth a sut y'i rheolir o ddydd i ddydd, yn benodol yn ystod oriau'r lleoliad
- ✓ Anghenion y dysgwr: gan gynnwys meddyginiaeth (dos, effeithiau andwyol a ffordd o storio) a thriniaethau eraill; amser; cyfleusterau; cyfarpar; profion; bwyd a diod a ddylai fod ar gael pan

ddefnyddir hyn i reoli’r cyflwr; gofynion deietegol; materion amgylcheddol e.e. ardaloedd prysur, amseroedd teithio rhwng y gwersi

- ✓ Cymorth penodol ar gyfer anghenion addysgol, cymdeithasol ac emosiynol y dysgwr
- ✓ Lefel y cymorth y mae ei angen (bydd rhai dysgwyr yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros eu hanghenion iechyd eu hunain) gan gynnwys mewn argyfwng
- ✓ Pwy fydd yn darparu’r cymorth hwn, eu hanghenion hyfforddiant a’u disgwyliadau o’r rôl honno
- ✓ Pwy yn y lleoliad y bydd angen gwybod arno/arni am anghenion gofal iechyd y dysgwr a’r gefnogaeth y mae ei hangen arno
- ✓ Protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau addysg ac iechyd (os oes angen)
- ✓ Caniatâd ysgrifenedig gan rieni a’r Pennaeth fel y gall staff roi meddyginiaethau neu i’r dysgwr eu cymryd ei hun yn ystod oriau’r lleoliad
- ✓ Trefniadau neu weithdrefnau ar wahân y mae eu hangen ar gyfer gwibdeithiau neu weithgareddau eraill y lleoliad sydd y tu allan i amserlen arferol y lleoliad a fydd yn sicrhau y gall dysgwyr gymryd rhan e.e. asesiadau risg
- ✓ Pan godir materion o ran cyfrinachedd gan riant/plentyn/person ifanc, dylid pennu unigolion arbennig i gael yr wybodaeth am gyflwr y plentyn
- ✓ Cludiant o’r cartref i’r ysgol – cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hwn
- ✓ Gweithdrefnau mewn Argyfwng gan gynnwys person cyswllt, a threfniadau wrth gefn Gall fod cynllun gofal iechyd mewn argyfwng wedi ei baratoi ar gyfer rhai dysgwyr gan eu clinigwr arweiniol a ellid ei ddefnyddio wrth lunio eu cynlluniau gofal iechyd unigol eu hunain
- ✓ Datganiad o effaith wedi’i lunio ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro am sut mae cyflwr gofal iechyd y dysgwr a/neu’r driniaeth ar gyfer hwn yn effeithio ar ei ddysgu a pha gamau y mae angen eu cymryd i leddfu’r effeithiau hyn
- ✓ Dyddiad adolygu

16.2.3. Os oes angen adolygu’r cynllun, dylid trefnu cyfarfod rhwng y lleoliad a’r gweithiwr iechyd proffesiynol a’r rhieni er mwyn paratoi cynllun newydd a’i lofnodi gan bob parti.

16.2.4 Dylai’r cynllun hefyd fod ar gael i **bob aelod o staff** sy’n dod i gysylltiad â’r dysgwr

16.2.5. Os yw cyflwr y dysgwr yn un dirwyol neu sy’n bygwth ei fywyd, dylai’r cynllun adlewyrchu yr anghenion ychwanegol hynny a dylai ddarparu digon o wybodaeth i staff y lleoliad. Dylai’r cynllun gynnwys manylion am y cyflwr, beth i’w wneud a’r person cyswllt mewn argyfwng. Bydd angen cynnal adolygiadau yn fwy aml ar gyfer y rheiny sydd â chyflyrau sy’n dibynnu ar dechnoleg ac a all gyfyngu ar eu bywydau o bosibl.

16.2.6. Yn y mwyafrif o achosion, yn arbennig ynglŷn â salwch yn y tymor byr fel y rheiny y mae angen cwrs o wrthfiotigau arnynt, ni fydd angen cynnal CGIU manwl. Yn yr achosion hynny, gall fod yn ddigon cofnodi enw’r feddyginiaeth, y dos, yr amser pan roddwyd hi ac unrhyw sgîl-effeithiau posib. Dylid cadarnhau’r gweithdrefnau hyn yn ysgrifenedig gyda’r dysgwr (pan fo’n briodol), y rhieni a’r lleoliad addysg.

**16.3 Cydlynu gwybodaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, y dysgwr a’r rhieni**

Mae’r ffordd y rhennir anghenion gofal iechyd y dysgwr â gweithwyr cymdeithasol a gofal iechyd yn dibynnu ar ei anghenion ac ar y math o leoliad addysg. Dylai’r CGIU esbonio sut y rhennir gwybodaeth a phwy fydd yn gwneud hyn. Gall yr unigolyn hwn fod yn gyswllt cyntaf i rieni a staff a byddai’n cysylltu ag asiantaethau allanol.

**16.4 Cyfrinachedd**

Mae'n bwysig bod staff perthnasol (gan gynnwys staff dros dro) yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd eu dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i'r CGIUau. Mae'n debygol y bydd y CGIU yn cynnwys gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Wrth rannu a storio gwybodaeth, mae'n ofynnol cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a pheidio â thorri hawliau cyfrinachedd na dyletswyddau cyfrinachedd sy'n ddyledus i'r unigolyn.

**16.5 Rôl y dysgwr wrth reoli ei anghenion gofal iechyd ei hun**

Dylid annog dysgwyr sy'n gymwys i gymryd cyfrifoldeb dros reoli eu meddyginiaethau a'u triniaethau. Dylid nodi hyn yn CGIU y dysgwr.

Pan fo'n bosib, dylid caniatáu i ddysgwyr gario eu meddyginiaeth a'u dyfeisiau perthnasol eu hunain gyda nhw, neu eu galluogi i gael gafael arnynt yn gyflym. Gall fod angen lefel briodol o oruchwyliaeth ar rai dysgwyr.

Os yw dysgwr yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth neu gyflawni triniaeth y mae ei hangen arno, ni chaiff staff ei orfodi gwneud hyn - bydd rhaid dilyn trefniadau y lleoliad a bennwyd, fel y cytunwyd arnynt yn y CGIU. Dylid rhoi gwybod i'r rhieni cyn gynted â phosib er mwyn gallu ystyried trefniadau amgen a dylid ceisio cyngor iechyd pan fo'n briodol.

**<u>17. Ymarfer annerbyniol</u>**

**Ymarfer annerbyniol yw:**

- Atal dysgwyr rhag bod mewn addysg neu leihau'r oriau oherwydd eu hanghenion, oni bai bod hyn yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr neu i eraill.
- Atal dysgwyr rhag cael mynediad rhwydd i'w hanadlwyr a'u meddyginiaeth a rhag cael y feddyginiaeth pan fo angen (os ydynt yn cymryd y feddyginiaeth eu hunain)
- Cymryd bod angen yr un driniaeth ar bob dysgwr gyda'r un cyflwr
- Anwybyddu barn y dysgwr neu ei rieni, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd
- Anfon dysgwyr ag anghenion gofal iechyd adref yn aml am resymau sy'n ymwneud â'u cyflwr neu eu hatal rhag aros am weithgareddau arferol y lleoliad, gan gynnwys cinio, oni bai bod hyn wedi'i nodi yn rhan o'u CGIU neu eu hasesiad risg.
- Anfon dysgwr sy'n mynd yn sâl neu y mae angen cymorth arno i'r swyddfa neu'r ystafell feddygol heb ei hebrwng neu gyda rhywun nad yw'n gwybod am ei anghenion neu na all ei fonitro'n briodol
- Cosbi dysgwr am ei gofnod presenoldeb os yw ei absenoldebau yn ymwneud â'i gyflwr e.e. apwyntiadau ysbyty.
- Atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu fynd i'r toiled neu gael mathau eraill o egwyl pan fydd angen hyn arnynt er mwyn rheoli eu cyflwr meddygol yn effeithiol
- Gofyn i rieni, neu eu gorfodi mewn unrhyw ffordd arall, fod yn y lleoliad addysg, ar wibdeithiau neu mewn gweithgaredd arall oddi ar safle'r lleoliad er mwyn iddynt roi meddyginiaeth neu gefnogaeth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys ar gyfer problemau mynd i'r tŷ bach
- Atal dysgwyr rhag cymryd rhan mewn unrhyw agwedd ar fywyd y lleoliad, gan gynnwys gwibdeithiau'r lleoliad neu greu rhwystrau diangen iddynt wneud hynny e.e. ei gwneud yn ofynnol i rieni ddod gyda'r plentyn.

- Gofyn i ddysgwr adael yr ystafell ddosbarth neu'r gweithgaredd os oes angen iddo gymryd meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu gael bwyd yn unol â'i anghenion iechyd.
- Disgwyl neu achosi i riant roi'r gorau i'w swydd neu ymrwymiadau eraill oherwydd bod y lleoliad addysg yn methu cefnogi anghenion gofal iechyd dysgwr
- Gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol ar gyfer dysgwr ar adeg hwyr. Dylid gwneud cais am y rheiny mewn da bryd. Dylid hefyd ystyried addasiadau neu amser ychwanegol sy'n angenrheidiol ar gyfer ffug arholiadau neu brofion eraill

Cyfeiriwch at adran 'Ymarfer Annerbyniol' yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ''Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd'.

## Amlinelliad o'r fframwaith cyfreithiol

Mae gwahanol ddyletswyddau ar ysgolion ac awdurdodau lleol sy'n berthnasol i ddiogelu lles plant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd yng nghyd-destun addysg. Amlinellir y prif ddarpariaethau isod.

Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr o'r gyfraith sy'n berthnasol i'r pwnc hwn nac yn ddatganiad awdurdodol na disgrifiad o'r gyfraith gan mai dim ond llysoedd a all roi hynny. Mae'r disgrifiadau isod yn crynhoi'r prif ddarpariaethau perthnasol. Ar gyfer unrhyw ddyletswydd benodol, bydd darpariaethau statudol ychwanegol a gallai fod cyfraith achosion hefyd (ac o bosib, datblygiadau o'r fath ar ôl i'r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi), sy'n effeithio ar ystyr y darpariaethau (e.e. diffinio termau), neu ar sut y caiff swyddogaeth ei chyflawni (e.e. materion y dylai'r person sy'n cyflawni'r swyddogaeth eu cadw dan sylw). Ni ddylid dibynnu ar y fframwaith fel dewis amgen i geisio cyngor cyfreithiol na darllen y darpariaethau eu hun. Mae deddfwriaeth ar gael yn www.legislation.gov.uk er nad yw'r cyfan ar ffurf wedi ei hadolygu a'i diweddaru.

## Cyffredinol

Yn rhan o'r gyfraith gyffredin, mae'n ddyletswydd gofal ar y rheiny sy'n gyfrifol am ofal a goruchwyliaeth plant a phobl ifanc, gan gynnwys athrawon a staff arall sy'n gyfrifol am blant, i weithredu yn yr un modd ag y byddai unrhyw riant gochelgar tuag at ei blant ei hun.

Caiff person nad yw â chyfrifoldeb rhiant am blentyn neu berson ifanc, ond sy'n gofalu am y plentyn hwnnw, wneud yr hyn sy'n rhesymol ym mhob un o amgylchiadau'r achos at ddiben diogelu neu hyrwyddo lles y plentyn. Mae hyn yn amodol er enghraifft ar orchymyn llys sy'n gwahardd camau penodol rhag cael eu cymryd sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw heb gydsyniad y Llys **(Adran 3(5) o Ddeddf Plant, 1989)** [2]**.**

[2] **Deddf Plant. 1989 -** http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents/enacted

## Dyletswyddau statudol ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

- Wrth ymgymryd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad yr ysgol, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu'r ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol **(Adran 21(5) o Ddeddf Addysg, 2002)** [3]**.**
- Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau o ran ymddygiad yr ysgol o safbwynt diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc (h.y. y rhai dan 18 oed) sy'n ddisgyblion yn yr ysgol **(Adran 175(2) Deddf Addysg, 2002).** Wrth ystyried pa drefniadau sy'n angenrheidiol, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu ystyried unrhyw ganllawiau Gweinidogion Cymru[4] **(Adran 175(4) Deddf Addysg, 2002).** Mae dyletswyddau ar gyrff llywodraethu hefyd dan **Ddeddf Cydraddoldeb, 2010**[5] **-** gweler yr adran isod am ragor o fanylion.

## Dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol

- Mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau cyffredinol ynglŷn â darpariaeth addysg yn eu hardal (*yn benodol, adrannau 13 i 14, 15A, 15B **Deddf Addysg, 1996***) [6]**.**
- Mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i ddarparu addysg addas (yn yr ysgol neu fel arall), ar gyfer plant sydd o oedran ysgol gorfodol, sydd efallai yn ei derbyn fel arall am unrhyw gyfnod o amser oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall (*Adran 19(1)* **Deddf Addysg, 1996**). Ar gyfer pobl ifanc (h.y. ar gyfer y rhai sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond sy'n iau na 18 oed), mae gan yr awdurdodau lleol y pŵer (yn hytrach na dyletswydd) i wneud trefniadau o'r fath yn yr amgylchiadau hynny (*Adran (4) **Deddf Addysg, 1996***). Wrth bennu pa drefniadau i'w gwneud dan *Adran 19(1) neu 19(4)*, yn achos unrhyw blentyn neu berson ifanc, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.
- Mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau addysg o safbwynt diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc (h.y. dan 18 oed), (*Adran 175(1) **Deddf Addysg, 2002***).

  Wrth ystyried pa drefniadau sy'n angenrheidiol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru (gweler troednodyn 3 ar y dudalen flaenorol), (*Adran 175(4) **Deddf Addysg, 2002***). Ceir rhan o'r canllawiau hyn dan Adran 175 (4) – wedi'i marcio mewn ffont du.

- Mae'n ddyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol o ran diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc sydd mewn angen yn eu hardaloedd (a hyd y bo'n gyson â hynny, hyrwyddo i'r plant hynny gael eu magu gan eu rhieni) drwy ddarparu amrywiaeth a lefel gwasanaethau sy'n briodol i anghenion y plant hynny (*Adran 17 **Deddf Plant 1989***).
- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo gwaith ar y cyd rhwng gwahanol unigolion a chyrff, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol ar gyfer ardal yn nalgylch yr awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth y GIG sy'n cynnig gwasanaethau yn yr ardal. Dylid gwneud y trefniadau gyda'r bwriad o:

---

[3] **Deddf Addysg, 2002** - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents
[4] Mae'r pŵer hwn nawr yn nwylo Gweinidogion Cymru, yn hytrach na Chynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy baragraff 30 yn Atodlen 11 i **Ddeddf Llywodraeth Cymru, 2006 -** http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents
[5] **Deddf Cydraddoldeb 2010** - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents
[6] **Deddf Addysg, 1996 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents**

- Wella lles plant a phobl ifanc yn yr ardal;
- Gwella ansawdd y gofal a'r gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc a ddarperir yn yr ardal (pan ddaw diwygiadau a wnaed gan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** i rym) [7].
- Amddiffyn plant sy'n cael profiad o gam-drin a niwed arall neu sydd mewn perygl o hynny (pan ddaw'r diwygiadau hynny i rym), (*Adran 25* ***Deddf Plant, 2004***) [8].

- Mae **Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgol), 1999, S.I. 1999/2**[9] yn gosod gofynion (y mae'r awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt) ynglŷn â chyfleusterau mewn ysgolion a gynhelir. Maent yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â lleoliad ar gyfer archwiliadau meddygol a thriniaeth disgyblion a gofalu am ddisgyblion sy'n sâl neu sydd wedi eu hanafu (*Rheoliad 5*).
- Mae dyletswyddau ar awdurdodau lleol dan **Ddeddf Cydraddoldeb, 2010** – gweler isod.

## Deddf Cydraddoldeb, 2010

Mae anabledd yn nodwedd a ddiogelir dan **Ddeddf Cydraddoldeb, 2010**[10]**.** Gall rhai disgyblion ag anghenion gofal iechyd fod yn anabl at ddibenion y Ddeddf; nid felly gyda rhai eraill. Mae amrywiol ddyletswyddau dan **Ddeddf Cydraddoldeb, 2010** sy'n berthnasol i gyd-destun dysgwyr ag anghenion gofal iechyd sy'n anabl.

Mae'n rhaid i'r corff â chyfrifoldeb beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion anabl - ac mewn rhai achosion, unigolion penodol eraill -, neu aflonyddu arnynt neu eu trin yn annheg. Mae'n ddyletswydd ar y corff â chyfrifoldeb hefyd i wneud addasiadau rhesymol (*Adran 85* ***Deddf Cydraddoldeb, 2010***).

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol baratoi a gweithredu strategaeth hygyrchedd ar gyfer yr ysgolion y maent yn gorff cyfrifol amdanynt. Mae hon yn strategaeth ar gyfer (dros gyfnod penodol):

a) Cynyddu i ba raddau y gall disgyblion anabl gymryd rhan yng nghwricwla'r ysgolion;
b) 'gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion gyda'r nod o gynyddu i ba raddau y gall disgyblion anabl fanteisio ar addysg a buddion, cyfleusterau a gwasanaethau a ddarperir neu a gynigir gan yr ysgolion;
c) Gwella'r wybodaeth a ddarperir i ddisgyblion anabl sy'n hygyrch yn rhwydd i ddisgyblion nad ydynt yn anabl (*paragraff 1 yn Atodlen 10* ***Deddf Cydraddoldeb 2010***).

Mae'n rhaid i'r corff â chyfrifoldeb mewn ysgol baratoi a gweithredu cynllun hygyrchedd. Mae cynllun o'r fath yn cynnwys yr un wybodaeth â strategaeth hygyrchedd ond mae'n berthnasol i'r ysgol benodol (*Paragraff 3 yn Atodlen 10* ***Deddf Cydraddoldeb 2010***).

Ynglŷn ag ysgolion a meithrinfeydd a gynhelir, yr awdurdod lleol yw'r corff â chyfrifoldeb neu'r corff llywodraethu. O ran yr uned cyfeirio disgyblion, yr awdurdod lleol fydd hwn.

---

[7] **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014** - http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents/enacted
[8] **Deddf Plant, 2004 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents**
[9] **Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgol), 1999, S.I. 1999/2 -** http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/2/contents/made
[10] **Deddf Cydraddoldeb 2010 - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents**

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg a gynhelir gan awdurdodau lleol (e.e. ysgolion a gynhelir). Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni eu swyddogaethau a rhoi sylw priodol i faterion penodol sy'n ymwneud â chydraddoldeb (*Adran 149*). Mae arnynt hefyd ddyletswyddau penodol at ddibenion galluogi perfformiad gwell o ran dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb, 2010 (Dyletswyddau Statudol)(Cymru), 2011 S.I.)**

## Darpariaethau perthnasol eraill

Mae **Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru)**, **2008**[11] yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ynglŷn â chludiant o'r cartref i'r ysgol.

Mae **Deddf Diogelu Data, 1998**[12] yn rheoli'r data personol a brosesir, sy'n cynnwys cadw a datgelu data.

Mae **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau, 1971**[13], a'r rheoliadau a wnaed, yn ymdrin â chyfyngiadau (er enghraifft, o ran cyflenwi a meddu) ar gyffuriau a reolir. Gellir rhagnodi cyffuriau a reolir i ddysgwyr.

## Atodiad 3:2

## Deddfwriaeth ddefnyddiol berthnasol ar gyfer Cymru a Lloegr

Gellir cyfeirio at y ddeddfwriaeth a restrir isod er eglurhad am y prif ddarpariaethau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc ag anghenion gofal iechyd.

- **Deddf Plant a Theuluoedd, 2401 (Adran 100)** [14] **–** mae'n rhoi dyletswydd ar gyrff lywodraethu ysgolion a gynhelir, perchnogion academïau a phwyllgorau rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion i wneud trefniadau er mwyn cefnogi disgyblion a'u hysgol o ran cyflyrau meddygol.
- **Adran 21 Deddf Addysg, 2002**[15] - mae'n gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, wrth arfer eu swyddogaethau ynglŷn ag ymddygiad yr ysgol, hyrwyddo lles disgyblion yn yr ysgol.
- **Adran 175 Deddf Addysg, 2002** – mae'n gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad yr ysgol yn cael eu harfer gan ystyried diogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol. Mae Paragraff 7 yn Atodlen 1 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Lloegr) 2010 yn gosod hyn ar gyfer ysgolion sy'n academïau ac yn academïau â darpariaeth amgen.
- **Adran 3 Deddf Plant 1989**[16] **-** mae'n rhoi dyletswydd ar berson sy'n gofalu am blentyn (ond nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn) i wneud popeth sy'n rhesymol ym mhob achos at ddibenion diogelu neu hyrwyddo lles y plentyn.
- **Adran 17 Deddf Plant 1989** – mae'n rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn angen **yn eu hardal nhw.**
- **Adran 10 Deddf Plant 2004**[17] **-** mae'n gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod a phartneriaid perthnasol (gan gynnwys corff llywodraethu ysgol a gynhelir, perchennog academi, grwpiau comisiynu clinigol a Bwrdd Comisiynu'r GIG) gyda'r bwriad o wella lles plant, gan gynnwys eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl, eu

[11] **Mesur Teithio Gan Ddysgwyr (Cymru),2008 - http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/pdfs/mwa_20080002_we.pdf**
[12] **Deddf Diogelu Data, 1998 -** http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/29/contents
[13] **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau, 1971** - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/38/contents
[14] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/6/contents/enacted
[15] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/32/contents
[16] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents
[17] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents

diogelu rhag niwed ac esgeuluso, a hefyd addysg. Mae’n ddyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu wrth baratoi’r trefniadau hyn.

- **Deddf Cydraddoldeb, 2010**[18] - mae’r elfennau allweddol fel a ganlyn:
  - Mae’n rhaid iddynt beidio â gwahaniaethau yn erbyn plant a phobl ifanc, eu haflonyddu arnynt nac eu fictimeiddio.
  - Mae’n **rhaid** iddyn nhw wneud trefniadau rhesymol i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy’n anabl dan anfantais sylweddol o’i gymharu â’u cyfoedion. Mae’r ddyletswydd hon yn rhagweithiol; mae’n rhaid cynllunio addasiadau a’u rhoi ar waith ymlaen llaw, i atal rhag anfanteision
- **Deddf Addysg, 1996, Pennod 1 (Anghenion Addysg Arbennig )**[19]
- **Deddf Safon Gofal, 2000**[20]
- **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 1974, Adran 2**[21] - a’r rheoliadau perthnasol, sy’n rhoi dyletswydd ar y cyflogwr (awdurdod lleol, corff llywodraethu neu ymddiriedolaeth academi) i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod staff a disgyblion wedi eu diogelu rhag risgiau i’w hiechyd a’u diogelwch.
- **Deddf Camddefnyddio Cyffuriau, 1971**[22] - a rheoliadau perthnasol ar gyfer cyflenwi, gweinyddu; storio a meddu ar gyffuriau a reolir. Gall fod plentyn y rhagnodwyd cyffuriau a reolir iddo mewn ysgol.
- **Deddf Meddyginiaethau,1968**[23] - mae’n manylu ar y ffordd y rhagnodir, cyflenwir a rhoddir meddyginiaethau yn y DU, ac mae’n rhoi cyfyngiadau ar ddelio â chynhyrchion meddyginiaethol, gan gynnwys sut y’u rhoddir.

## Deddfwriaeth berthnasol arall

- **Mae Pob Plentyn yn Bwysig 2003**[24]
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, 1989**[25]
- **Rheoliadau ar gyfer Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, 1999**[26]
- **Rheoliadau ar gyfer Rheoli Sylweddau sy’n Niweidiol i’r Iechyd, 2002**[27]
- **Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân), 2005**[28]
- **Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl, 1970**[29]

[18] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents
[19] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/part/IV
[20] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/contents
[21] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/section/2
[22] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1971/38/contents
[23] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1968/67
[24] https://www.education.gov.uk/consultations/downloadableDocs/EveryChildMatters.pdf
[25] http://www.unicef.org.uk/Documents/Publication-pdfs/UNCRC_PRESS200910web.pdf
[26] http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3242/regulation/1/made
[27] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2002/2677/contents/made
[28] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2005/1541/contents/made
[29] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1970/44/contents/enacted